



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cynllun Cynllunio Creu Coetir

Plan Creu Coetir

Llawlyfr Sut i Lenwi

Llawlyfr Sut i Lenwi

Mae'n bwysig eich bod yn darllen llyfryn y Cynllun Cynllunio Creu Coetir (WCPS) i ddeall gofynion y cynllun.

Bydd y cyfarwyddiadau hyn yn rhoi cymorth cam wrth gam wrth ichi fynd ati i lenwi'ch Plan Creu Coetir WCPS.

Mae Llywodraeth Cymru yn paratoi'r Llawlyfr hwn yn Gymraeg ac yn Saesneg fel y mae gofyn iddi wneud dan Gynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru. Os hoffech gael copi o'r Llawlyfr hwn yn Saesneg, ewch i llyw.cymru/cynllun-adfer-coetir, cliciwch ar y botwm dewis iaith ar frig y dudalen ac ail agorwch y ddogfen.

Os cewch chi unrhyw broblemau neu os na fyddwch yn gallu mynd i'n gwefan, dylech gysylltu â Desg Gymorth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004.

Cyflwyniad – Dechrau Arni	4
1. Manylion yr eiddo	5
2. Gweledigaeth ac Amcanion Tymor Hir	7
3. Effeithiau posibl y gwaith plannu	8
4. Dyluniad y Gwaith Plannu Newydd	9
5. Cynnal a monitro'r safle plannu	10
6. Ymgynghoriad a Chyfranogiad y Cyhoedd	11
7. Cynllun Gweithredu	14
8. Gwybodaeth sydd ei hangen i gadarnhau'r Plan	16
Datganiadau	17
Cyn cyflwyno – Rhestr Wirio	21

Cyflwyniad – Dechrau Arni

Unwaith y bydd y Ffurflen Datgan Diddordeb wedi cael ei phrosesu a'i dethol, bydd llythyr yn cael ei anfon at y cwsmer i gadarnhau ei fod wedi'i ddewis, ynghyd ag Atodiad i'r cwsmer allu derbyn neu wrthod y cynnig. Bydd y dogfennau hynny'n cael eu hanfon ar-lein drwy gyfrif y cwsmer ar RPW Ar-lein, sy'n gyfrif y bydd y cwsmer ei hun neu ei asiant yn gallu mynd i mewn iddo.

Os yw'r cynnig yn cael ei dderbyn a bod yr Atodiad sydd ei angen yn cael ei arwyddo a'i ddychwelyd i Lywodraeth Cymru o fewn 14 diwrnod, bydd angen i'r cwsmer gyflogi cynlluniwr coetir cofrestredig i gwblhau'r Plan Creu Coetir.

Gan ddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y [Map Cyfle Coetir](#) (WOM), yn rheolau'r cynllun ac mewn arolwg o'r safle, bydd angen i'r cynlluniwr wneud ychwanegiadau i Shapefile y cwsmer a llenwi'r plan WCPS, gan gyfeirio at y canllawiau hyn wrth wneud hynny.

Y Plan

Rhaid ichi lenwi pob un o'r adrannau er mwyn i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) allu eu dilysu. Ar ôl i'r ymgeisydd gael cadarnhad bod y plan wedi'i ddilysu, bydd yn gymwys i wneud cais i Lywodraeth Cymru am gyllid am bum mlynedd ar ôl dyddiad ei ddilysu. Bydd hyn yn caniatáu i reolwr tir wneud cais am gyllid creu coetir Llywodraeth Cymru yn y dyfodol heb orfod ei ailddilysu.

Dylech gynnwys yr holl gynigion plannu ar gyfer y 5 mlynedd nesaf yn eich plan WCPS er mwyn i chi allu bod mewn sefyllfa i ymgeisio am gyllid creu coetir yn ystod ffenestri ymgeisio yn y dyfodol wrth iddyn nhw godi.

Y Shapefile

Er mwyn osgoi dychwelyd Shapefile i'w chywiro, rhaid i gwsmeriaid a Chynllunwyr Cofrestredig Coetir sicrhau bod y canllawiau a ddarperir yn cael eu dilyn. Mae'r ddogfen Canllawiau Shapefile ar gael [yma](#). Mae rhestr wirio ar gael i helpu cynllunwyr i sicrhau eu bod wedi cwblhau Shapefile yn gywir.

Cynllun Cynllunio Creu Coetir Plan 2022



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cyfeirnod y Cwsmer (CRN)	Cyfeirnod y Datganiad o Ddiddordeb (EOI)

1. Manylion yr Eiddo, yr Ymgeisydd a'r Cynlluniwr / Asiant

Enw eiddo'r coetir newydd	Enw Cyswllt	Statws
		<i>Dewiswch >></i>

E-bost	Rhaid dewis yr ymateb cywir o'r gwymplen	Rhif Cysylltu

Enw'r Cynlluniwr Coetiroedd cofrestredig	E-bost	Rhif Cysylltu

Enw a Chwmni'r Asiant (os yn berthnasol)	E-bost	Rhif Cysylltu

Manylion y Safle Plannu

A yw'r cynlluniwr wedi ymweld â'r holl gaeau ar y safle lle bwriedir plannu coed?	<i>Dewiswch >></i>
---	--------------------------

Arwynebedd (Ha) * hofrwch i weld mwy	Categori Coetir y WCPS	Cyfeirnod Grid 6 ffigur y Safle Plannu
	<i>Dewiswch >></i>	

Awdurdod Lleol y Safle Plannu	Y dref agosaf

Gwybodaeth ar gyfer Asesiad o'r Effeithiau Amgylcheddol (Coedwigaeth)

Arwynebedd (hectarau) y gwaith plannu newydd yn y dynodiadau isod – cynhwyswch yn unig y gwaith plannu o fewn y dynodiad waeth beth yw maint y cynllun llawn oni bai ei fod yn gymwys (nodwch yr arwynebedd rydych yn ei wybod):

Safleoedd Dynodedig	Arwynebedd (Hecterau)
Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)	
SoDdGA gyda Gorchymyn Cadwraeth Natur (Adran 29 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981)	
Parc Cenedlaethol	
Safle Treftadaeth y Byd	
Henebion Rhestredig (HR)	
Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE)	
Rhwydwaith Safleoedd Cenedlaethol (safleoedd Natura 2000 gynt h.y. Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) neu Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA)	
Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol (GNC)	
Safleoedd RAMSAR	

Ewch at Map Cyfle Coetir i gael y wybodaeth yma i gefnogi EIA

A oes unrhyw coedwigo newydd wedi bod yn y 5 mlynedd diwethaf sy'n ffinio â'r coetir rydych yn bwriadu ei greu?	Dewiswch >>
Beth yw maint y prosiect sy'n ffinio (Hecterau)?	
Os oes mwy nac un prosiect coedwigo, rhestrwch bob un sy'n berthnasol a'u maint	

Rhannu Gwybodaeth

Rydym yn defnyddio'r wybodaeth yr ydych wedi ei rhoi i ni er mwyn asesu a chymeradwyo eich cynllun Cynllunio Creu Coetir.

Byddwn yn rhannu'r wybodaeth hon ynghyd ag unrhyw wybodaeth gysylltiedig berthnasol â Gwasanaeth Cydsynio Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) iddo allu dweud a yw'ch Cynllun Creu Coetir yn Brosiect Perthnasol o dan Reoliadau Asesu Effeithiau Amgylcheddol (Coedwigaeth) 1999 ai peidio. Os bydd angen rhagor o wybodaeth ar CNC i allu cynnig barn, efallai y gwnaiff gysylltu â chi'n uniongyrchol.

O dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), ein sail cyfreithiol dros rannu'r wybodaeth gydag CNC yw:

(e) Mae ei hangen arnom i gyflawni tasg gyhoeddus.

2. Gweledigaeth ac Amcanion Tymor Hir

Disgrifiwch eich gweledigaeth tymor hir ar gyfer y coetir newydd

Rhestrwch amcanion y coetir newydd

Rhowch 1-2 frawddeg ar y weledigaeth hirdymor ar gyfer yr ardal blannu newydd.

1.	
2.	Nodwch amcanion y perchennog/perchnogion a all gwmpasu manteision economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol. Mae enghreifftiau o amcanion yn cynnwys:- - Gwella'r cysgod i'r stoc ar y fferm - Sefydlu coetir fydd yn cynhyrchu pren da - Cynhyrchu cyflenwad cyson o goed tân i fwyler bioamas y fferm - Creu cynefin i anifeiliaid a phlanhigion gwyllt - Mygu sŵn rheilffordd neu ffordd gyfagos
3.	
4.	
5.	
6.	

* Dylai'r holl amcanion fod yn benodol i'r safle ac yn realistig o ystyried y cymysgedd o goed a blennir a maint y cynllun.

3. Effeithiau posibl y gwaith plannu

Haen Sensitifrwydd *	Cyfeirnod y Ddalen a Rhif y Cae	Disgrifiad o'r haen yn y gwaith plannu	Sut byddwch yn ymdrin â'r haen a'r arwynebedd a blennir yn unol ag UKFS?	A oes unrhyw gynefinoedd â blaenoriaeth, fel y'u rhestrir o dan Adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, yn y safle plannu?	A oes angen ymgynghori ar gyfer yr haen hon (Gweler Adran 6)

Ewch i Fap Cyfle Coetir am haenau. gwybodaeth
E.e. byfferi SoDdGA, mynediad agored, wiwerod coch.

Disgrifiwch yr haen e.e. SoDdGA a byffer 300m – beth yw enw'r SoDdGA, pam ei fod wedi'i dynodi, pa mor agos yw'r plannu newydd i'r SoDdGA. Edrychwch ar y canllawiau i gael gwybodaeth am haenau.

Ewch i wefan Llywodraeth Cymru / Map Cyfle Coetir am ganllawiau rhywogaethau / canllawiau dilysu yn unol ag UKFS.

* **Dylech restru'r holl ffactorau sensitif ac ymdrin â nhw yn unol â'r UKFS.** Bydd angen cynnwys haenau'r Map Cyfle Coetir, ffactorau sensitif posibl eraill a ffactorau pwysig eraill – hawliau tramwy, fforddfreintiau, afonydd a llynnoedd fel y'u nodir yng nghanllaw CNC i Gynllunwyr Creu Coetir GN002 [Canllaw Creu Coetir i Gynllunwyr](#). Does dim angen rhestru'r haenau sgorio yn y fan yma.

* Dylech ddangos hefyd yn Adran 6 yr holl ffactorau sensitif y bydd angen ymgynghori arnyn nhw.

4. Dyluniad y Gwaith Plannu Newydd

Disgrifiad byr o'r safle plannu newydd	← Rhowch fanylion y safle plannu newydd gan gynnwys natur y safle e.e. tir pori, ei leoliad o fewn y dirwedd, uchder uwchlaw'r môr, y pridd, cynefinoedd gerllaw..
Paratoi'r ddaear cyn plannu * hofwrch i weld y gofynion	← Pa waith paratoi sydd ei angen ar y tir cyn plannu'r coed e.e. rheoli rhedyn a phryd caiff y gwaith ei wneud.
Dyluniad y cynllun plannu newydd	
Math o goed a blennir a maint y coed/llwyni	← Disgrifiwch y stoc plannu e.e. gwreiddiau moel, wedi'u tyfu mewn celloedd a maint y coed a'r llwyni.
Amddiffyn y coed – pa fath o lewys/cysgodfeydd ydych chi am eu defnyddio a pham?	← Disgrifiwch y math o gysgodfeydd / llewys coed rydych am eu defnyddio a pham.
Ffensio i gadw da byw allan	
Amddiffyn rhag ceirw (os yn berthnasol)	← Os oes gennych broblem â cheirw, nodwch y mesurau rydych yn eu cymryd (e.e. amddiffyniad ychwanegol, ffensys) i amddiffyn y coed newydd rhag ceirw.
Tir agored * hofwrch i weld mwy	← Nid yw ardaloedd o 0.5ha neu fwy yn gymwys i gael cyllid ac mae angen eu mapio.
A yw'r plannu newydd o fewn ardal mynediad agored?	
A oes coed yn sefyll ar y safle yn barod?	← Gellir cynnwys coed a llwyni gwasgaredig yn y plan ac os yw'r ardal dros 0.5ha, mae angen ei mapio yn yr un modd â thir agored.
Amserlen y plannu newydd	← Rhowch gymaint o wybodaeth â phosibl am amserlen y plannu newydd.

5. Cynnal a monitro'r safle plannu

Gwaith Cynnal a Chadw	Beth sydd angen ei gynnal?	Pwy fydd yn cynnal a chadw'r safle plannu newydd?	Pryd caiff y gwaith cynnal a chadw ei wneud?
Torri'r tyfiant o gwmpas y coed	 Disgrifiwch yn fras (1-2 frawddeg) sut y byddwch yn rheoli llystyfiant e.e. rhedyn, mieri, porfa e.e. chwynladdwr gan ddefnyddio contractwr trwyddedig, matiau mwlts		
Plannu coed newydd yn lle coed sy'n methu	 Esboniwch y drefn ar gyfer chwilio am goed marw a phryd y caiff coed newydd eu plannu yn eu lle. Bydd gofyn plannu'r un math o goed â'r rheini sy'n methu.		
Ffensio	 Esboniwch yn fras y drefn ar gyfer archwilio'r ffens o gwmpas safle'r coed newydd. Bydd gofyn gwneud o leiaf unwaith bob blwyddyn.		
Amddiffyn y coed	 Disgrifiwch yn fras sut a phryd y caiff y cysgodfeydd coed ar safle'r coed newydd eu harchwilio. Bydd gofyn gwneud o leiaf unwaith bob blwyddyn.		
Tynnu'r llwys coed ac ati	 Disgrifiwch yn fras sut y byddwch yn tynnu'r cysgodfeydd ar safle'r coed newydd pan fydd y coed a'r llwyni wedi cydio ac felly'n ddiogel rhag cwningoed a llygod.		
Llwybrau drwy'r coed	 Esboniwch sut y caiff hwyfeydd a llwybrau ar y safle eu cynnal e.e. lladd gwair â thractor		

6. Ymgynghoriad a Chyfranogiad y Cyhoedd

Ymgynghori					
Sefydliad	Dyddiad Cysylltu	Dyddiad yr Adborth	Eu Hymateb	Sut gwnaeth yr ymateb i'r ymgynghoriad effeithio ar y cynllun hwn?	Eich Camau chi * Os nad ydych yn dilyn cyngor / cais yr ymgynghoriad, esboniwrch pam.

Yn unol â rheolau'r Cynllun a'r UKFS, rhaid i'r adran hon gynnwys adroddiad byr am yr ymgynghoriad cyhoeddus sydd wedi'i gynnal fel rhan o'r plan creu coetir. Bydd hyn yn cynnwys cymdogion, y gymuned leol, cyngor plwyf ac unrhyw rhai eraill a fydd â diddordeb. Bydd angen i'r math o ymatebion gan rhanddeiliaid lleol fod yn gymesurol a'r achos. Ar gyfer cynlluniau mwy, bydd angen ymgynghoriad mwy trylwyr. Fel rhan o unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus neu gymdogol, mae angen i'r cynlluniwr nodi pryd wnaeth yr ymgeisydd ymgynghori gyda'r cyhoedd a'r rhanddeiliaid, sut y cawsom eu hymgyngori (h.y. digwyddiad cyhoeddus, taflenni, wyneb yn wyneb), am ba hyd wnaeth yr ymgynghoriad barhau a phwy wnaeth ymateb.

Mae cymryd dull rhagweithiol i ymgynghori yn medru hyrwyddo dealltwriaeth am weledigaeth o blannu newydd. Mi fedr hyn arwain at lefelau uwch o ddiddordeb a chefnogaeth weithredol oddi fewn coetir pan mae'r cyfle yn codi, e.e. gwirfoddoli ar gyfer dyddiau agored. Mi all ymgynghori gyda'r gymuned hefyd leihaus'r tebygrwydd o ymatebion negyddol i'ch cynlluniau a gweithredoedd oddi fewn i'r gymuned leol oherwydd gwallau cyfathrebu neu ddealltwriaeth wael o greu coetir.

Efallai fe fydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gorchymyn fwy o wybodaeth yn ystod y broses wirio, felly mae'n bwysig i chi gadw cofnod o unrhyw sgysiau yr ydych yn cael gyda rhanddeiliaid, manylion o'r hysbysiadau yr ydych yn arlwyo ag ymatebion yr ydych yn derbyn.

Cyfranogiad y Cyhoedd								
Dyddiad Cychwyn		DD/MM/BBBB			Dyddiad Gorffen		DD/MM/BBBB	
Unigolyn neu Sefydliad	Cysylltiad â'r plannu newydd (e.e. cymydog, cyngor cymunedol, Partïon â Buddiant)	Dull Cyfathrebu (e.e. digwyddiad, llythyr, e-bost, ffôn)	Dyddiad Cysylltu	Dyddiad yr Adborth	Eu hymateb	Eich Camau		
	Sicrhewch fod yr holl dystiolaeth a gesglir ynghlwm wrth y plan. Bydd Llywodraeth Cymru yn cadw'r holl ddata a ddarperir am gyfnod penodol o flynyddoedd yn unol â rheoliadau'r Gofyniad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR). I gael rhagor o wybodaeth, cliciwch ar y ddolen hon: Hysbysiad preifatrwydd Llywodraeth Cymru							

Os nad ydych yn teimlo fod angen cyfranogiad y cyhoedd, a wnewch chi ddatgan pam

Arolygon Arbenigol sydd wedi’u Cynnal

Os oes angen cynnal arolwg arbenigol o gynefin neu rywogaeth ar gyfer datblygu’r cynllun, gallwch hawlio 80% o gost yr arolwg. Gweler Adran C Llyfryn Rheolau’r WCPS am ragor o wybodaeth.

Ni fyddwch yn cael hawlio costau’r arolwg os byddwch eisoes wedi talu amdano cyn cael eich dewis i Ddatgan Diddordeb.

Disgrifiwch unrhyw arolygon arbenigol sydd wedi’u cynnal i gefnogi’r cais hwn gan roi esboniad byr pam yn eich barn chi roedd angen eu cynnal (os oes ansicrwydd, bydden ni’n eich cyngori i siarad ag CNC cyn trefnu arolwg). Rhowch ddyddiad yr arolwg a phwy wnaeth ei gynnal. Cynigir cymorth ariannol ar gyfer arolygon o ystlumod, dyfnder mawn, adar sy’n bridio, llystyfiant a chynefinoedd.

Arolwg Arbenigol	Dyddiad Cynnal yr Arolwg	Dyfynbris 1		Dyfynbris 2		Dyfynbris 3	
		Cyflenwr	Dyfynbris	Cyflenwr	Dyfynbris	Cyflenwr	Dyfynbris

7. Cynllun Gweithredu

Gofalwch:

1. Fod yr holl arwynebeddau, rhifau adnabod y mapiau a'r manylion yn adran 7 yn gyson â gweddill y plan a'r shapefile.
2. Nad yw hyd y ffens yn fwy na chyfanswm perimedwr y safle plannu a'i fod yn bodloni rheolau'r cynllun h.y. dim ffens drydan / Clippex.
3. Fod y cymysgedd o rywogaethau yn cyd-fynd â manyleb y Categori Coetir.
4. Nid yw'r canran sy'n brysgwydd yn fwy na'r hyn a ganiateir mewn unrhyw Gategori Coetir.
5. Gofalwch fod canrannau'r Rhywogaethau Coed yn dod i 100%.

Rhif y Llain	Cyfeirnod y Ddalen	Rhif y Cae	Rhif Adnabod Unigryw (Cyfeirio at y Shapefile)	Categori'r Coetir neu Ffensio	Rhywogaeth	Rhywogaeth %	Nifer yn y cynnig (Ha / m)

Rhif cofrestru'r tir Llywodraeth Cymru. Mae'r cyfeirnod haen yn ddau lythyren a pedwar rhif ee SH1234; mae rhif y cae yn bedwar rhif

Rhif Adnabod Unigryw - defnyddiwr y cyfeirnod hwn i gysylltu'r eitem a ychwanegwyd yn y Shapefile cysylltiedig â'r Plan.

Gweler y llyfryn rheolau ar gyfer Categori'r Coetir

Gweler y rhestr o goed a llwyni

Arwynebedd y gwaith plannu/hyd y ffensio newydd

Rhif y Llain	Cyfeirnod y Ddalen	Rhif y Cae	Rhif Adnabod Unigryw (Cyfeirio at y Shapefile)	Categori'r Coetir neu Ffensio	Rhywogaeth	Rhywogaeth %	Nifer yn y cynnig (Ha / m)

8. Gwybodaeth sydd ei hangen i gadarnhau'r Plan

Dogfennau	Wedi'i hatodi: Ydy / Na Pwysig: byddwn yn dychwelyd planiau heb eu harchwilio os nad yw'r dogfennau sydd eu hangen wedi'u hatodi neu os gwelir gwallau yn yr archwiliad cychwynnol o'r shapefile.
Shapefile y Cynllun Cynllunio Creu Coetir	Dewiswch >>
Rhestr Gyfeirio Shapefile y Cynllun Cynllunio Creu Coetir	Dewiswch >>

Caniatâd a'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad	Ynglwm: Ydy / Na / Ddim yn Berthnasol
Cyfoeth Naturiol Cymru: Caniatâd o fewn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)	Dewiswch >>
Cadw: Ymateb o fewn 50m i Heneb Restredig	Dewiswch >>
Ymgynghori / Cyfranogiad y cyhoedd	Dewiswch >>
Ymgynghoriad yr Ymddiriedolaeth Archeolegol	Dewiswch >>
Dogfennau ychwanegol e.e. arolwg ecolegol, ymgynghori â'r gymuned, map dylunio tirlun	Dewiswch >>
Ymatebion i ymgynghoriadau e.e. parc cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol dros 2Ha	Dewiswch >>
Safleoedd eraill heb eu dynodi (e.e. RIGS, Parciau a Gerddi Hanesyddol)	Dewiswch >>

Datganiad Cynlluniwr y Coetir

Rhaid i'r datganiad hwn gael ei lenwi gan y cynlluniwr cyn cyflwyno'r cynllun gorffenedig i Lywodraeth Cymru ar gyfer ei ddilysu gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Rwy'n cadarnhau bod yr holl wybodaeth ym Mhlan y Cynllun Cynllunio Creu Coetir hwn yn wir, yn gywir ac yn gyflawn hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred. Rwy'n cadarnhau fy mod wedi ymweld â'r holl safleoedd y bwriedir eu plannu. Rwy'n deall ac yn derbyn mai fy nghyfrifoldeb i yw sicrhau hynny. Rwy'n cadarnhau os bydd yr wybodaeth rwy'n ei darparu yn newid, y rhoddaf wybod i Lywodraeth Cymru am y newid o fewn 10 diwrnod gwaith. Rwy'n derbyn os gwelir bod unrhyw wybodaeth yn anghyflawn, camarweiniol neu ffug neu wedi dyddio, gallai Llywodraeth Cymru dynnu'r plan yn ôl a'i roi i Gynlluniwr arall i'w gynnal. Lle bernir bod angen, caiff Sancsiynau'r Telerau ac Amodau ar gyfer Cofrestru Cynllunwyr Coetir eu gweithredu.

Rhaid i'r Cynlluniwr Coetir Cofrestredig sy'n cyflwyno'r plan lofnodi'r datganiad hwn.

Llofnod:

Dyddiad:

Printiwch yr
Enw:

Datganiad

Os nad oes gan Asiant yr awdurdod i wneud hynny, rhaid i'r datganiad hwn gael ei lofnodi gan ymgeisydd. Os asiant sy'n llofnodi'r datganiad hwn, rhaid iddo fod wedi'i gofrestru gyda Llywodraeth Cymru i weithredu ar ran yr ymgeisydd.

Rwy'n cadarnhau fod yr holl wybodaeth yn y Plan Creu Coetir hwn yn wir, yn gywir ac yn gyflawn hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred. Rwy'n deall ac yn derbyn mai fy nghyfrifoldeb i yw sicrhau hynny. Os bydd yr wybodaeth yr wyf wedi'i rhoi yn newid mewn unrhyw fodd, rwy'n cadarnhau y byddaf yn rhoi gwybod i RPW Ar-lein am y newid hwnnw cyn pen 10 diwrnod gwaith. Os caiff contract ei gynnig ar sail gwybodaeth nad yw bellach yn gyfredol, rwy'n derbyn y gallai Llywodraeth Cymru dynnu'r contract hwnnw yn ôl.

Rwy'n cadarnhau bod gennyf reolaeth ar y tir sydd wedi'i gynnwys yn y Plan Creu Coetir hwn. Rwy'n gwybod am yr amodau sy'n gysylltiedig â fy nghais ac â'r Plan Creu Coetir ac rwyf wedi cydymffurfio â nhw. Rwy'n datgan fy mod wedi darllen, deall a chydymffurfio â'r holl wybodaeth a'r canllawiau perthnasol ynghylch Creu Coetir.

Rwy'n ymrwymo i gadw am gyfnod o 10 mlynedd o ddyddiad y taliad olaf, ac i roi i swyddogion Llywodraeth Cymru neu i asiantiaid a awdurdodwyd yn briodol ganddynt, a hynny o fewn y cyfryw gyfnod ag a bennir ganddynt, y cyfryw gofnodion a gwybodaeth y gallai fod eu hangen mewn perthynas â'r cais hwn ac er mwyn penderfynu a fyddaf wedi cydymffurfio â'r datganiadau a'r ymrwymadau hyn. Rwy'n cytuno i ad-dalu unrhyw gymorth a geir, ynghyd ag unrhyw log, os bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn imi wneud hynny oherwydd imi dorri unrhyw reol, datganiad neu ymrwymiad a wnaed yn y cais hwn. Os caf gais i wneud hynny, rwy'n cytuno i ad-dalu unrhyw symiau a ordelir imi o ganlyniad i gamgymeriad cyfrif gan Lywodraeth Cymru neu am resymau eraill.

Byddaf yn caniatáu i swyddogion a awdurdodwyd yn briodol gan Lywodraeth Cymru, neu asiantiaid a awdurdodwyd yn briodol ganddynt, fynd ar unrhyw dir neu goetir sydd wedi'i gynnwys yn y Plan Creu Coetir er mwyn iddynt fedru archwilio'r tir, unrhyw gyfarpar priodol, cyfleusterau storio a chofnodion (gan gynnwys cofnodion ar gyfrifiadur), ac unrhyw agwedd arall ar y tir sydd wedi'i gynnwys yn y Plan Creu Coetir, a hefyd er mwyn iddynt fedru cadarnhau bod yr wybodaeth yn y cais hwn yn gywir. Byddaf yn rhoi pob cymorth rhesymol iddynt yn hynny o beth.

Rwy'n deall nad yw defnyddio asiant neu Gynlluniwr Coetir yn effeithio ar y cyfrifoldeb personol sydd arnaf o ran sicrhau cywirdeb yr wybodaeth a roddir yn y cais hwn, ac nad yw chwaith yn fy rhyddhau o'r cyfrifoldeb sydd arnaf i gydymffurfio â thelerau unrhyw gontract os bydd fy nghais yn llwyddiannus.

Rwyf wedi darllen yr Hysbysiad Prosesu Teg yn Llyfryn Rheolau'r Cynllun Cynllunio Creu Coetir. Rwy'n deall y gallai Gweinidogion Cymru rannu, cyhoeddi neu ddatgelu gwybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, am fy nghais a'm Plan Creu Coetir gyda sefydliadau eraill. Rwy'n cytuno i

wybodaeth o'r fath gael ei datgelu neu ei chyfnewid a hefyd i ddefnyddio gwybodaeth sy'n cael ei chreu neu a geir mewn cysylltiad â'm cais (gan gynnwys manylion taliadau i mi neu i'm busnes).

Rwy'n deall y bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ac yn datgelu gwybodaeth yn unol â'r rhwymedigaethau a'r dyletswyddau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 1998, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a Rheoliad y Comisiwn (EC) 908/2014. Rwy'n deall y gallai Llywodraeth Cymru baratoi a chyhoeddi mapiau a fydd yn dangos yr ardaloedd o dir a fydd yn dod dan y cytundebau, ac mae'n bosibl y bydd gwybodaeth arall a ddarperir yn cael ei datgelu hefyd os caniateir hynny dan y gyfraith.

Rwy'n deall y gallai Llywodraeth Cymru hefyd ofyn am wybodaeth amdanaf oddi wrth sefydliadau eraill, neu roi gwybodaeth amdanaf i iddyn nhw, er mwyn cadarnhau cywirdeb yr wybodaeth, er mwyn atal neu ganfod troseddau, a diogelu arian cyhoeddus. Mae'r sefydliadau eraill hynny'n cynnwys adrannau'r llywodraeth, awdurdodau lleol a chyrff eraill, fel sy'n briodol.

Os bydd unrhyw un yn gwneud datganiad ffug neu'n methu â rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am newid perthnasol i'r wybodaeth yn y Plan Creu Coetir, rwy'n deall y gallai gael ei erlyn. Gallai datganiad ffug, anghywir neu anghyflawn, neu fethu â rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am newid perthnasol i'r wybodaeth yn y Plan Creu Coetir hwn olygu y byddwn yn dod â'r contract i ben a/neu'n adennill taliadau.

Rwyf wedi datgelu manylion pob cytundeb rheoli neu grant arall y byddaf yn eu cael, neu yr wyf yn bwriadu gwneud cais amdanynt, a allai olygu y gallwn gael arian o ddwy ffynhonnell.

Pan gaiff fy mhlan ei gadarnhau, rwy'n deall y gallaf wneud cais i Lywodraeth Cymru am arian am hyd at 5 mlynedd ar ôl dyddiad y cadarnhad. Os caiff y cynllun ei newid a bod angen i CNC ei gadarnhau, y fi fydd yn ysgwyddo cost hynny ac ni fyddaf yn gymwys am gymorth gan Lywodraeth Cymru.

Y fi fydd yn gyfrifol am roi gwybod i'r RPW trwy RPW Ar-lein os byddaf yn dewis wedi hynny creu coetir heb arian Llywodraeth Cymru.

Datganiad yr Ymgeisydd

Llofnod:

Dyddiad:

Printiwch eich
Enw:

neu

Datganiad yr Asiant

Os yw'r cais yn cael ei gyflwyno gan asiant, rwyf i, yr asiant, yn cadarnhau:

(a) Fy mod wedi tynnu sylw'r ymgeisydd at Blau terfynol y Cynllun Cynllunio Creu Coetir a'r amodau sy'n gymwys i'r cais hwn, gan gynnwys Datganiadau'r Ymgeisydd sydd i'w gweld uchod, ac rwyf wedi hysbysu'r ymgeisydd mai ei gyfrifoldeb ef/hi yw cydymffurfio â nhw; a

(b) Fy mod wedi cael fy awdurdodi gan yr ymgeisydd i wneud Datganiadau'r Ymgeisydd, sydd i'w gweld uchod, ar ei ran.

Llofnod:

Dyddiad:

Printiwch eich
Enw:

Rhaid llenwi'r adrannau
hyn yn llawn

Cyn eu cyflwyno, ydych chi wedi:	Ydw / Na / Dim yn gymwys	
Gwneud cais am greu coetir ar o leiaf 2ha o dir cymwys	Dewiswch >>	
Ymgynghori â'r Ymddiriedolaeth Archeolegol berthnasol gan ddarparu tystiolaeth	Dewiswch >>	
Cynnal y lefel ofynnol o Ymgynghori â'r Cyhoedd gan ddarparu tystiolaeth	Dewiswch >>	
Cynnal unrhyw ymgynghoriad arall sydd ei angen cyn ymgeisio gan ddarparu tystiolaeth (darllenwch GN002 am fanylion). Gofalwch eich bod yn nodi dyddiadau pob ymgais i gyfathrebu hyd yn oed os na chawsoch ymateb.	Dewiswch >>	
Gofyn am / wedi cael unrhyw ganiatâd sydd ei angen, gan ddarparu tystiolaeth (e.e. caniatâd adran 38 i blannu ar dir comin, ffens ar draws hawl tramwy cyhoeddus, safle gwarchodedig)	Dewiswch >>	
Atodi shapefiles sy'n dangos pob elfen o'ch cynnig, a'ch bod wedi mapio darnau agored o dir >0.5ha a'u tynnu o'r cyfanswm.	Dewiswch >>	
Sicrhau bod y cymysgedd o rywogaethau'n cyd-fynd â manyleb Categori Coetir y WCPS	Dewiswch >>	
Cadarnhau bod eich mathemateg yn gywir (e.e. bod canrannau'ch coed yn dod i 100 a bod y niferoedd (arwynebedd/hyd) yn gyson ym mhob rhan o'ch plan)	Dewiswch >>	
Ystyried yr holl ymatebion sydd wedi dod i law i'r ymgynghoriad – os nad ydych am ddilyn yr argymhellion, ydych chi wedi esbonio pam?	Dewiswch >>	
Atodi'r dogfennau perthnasol? (e.e. arolygon ecolegol, ymgynghoriad â'r gymuned, map dylunio tirlun)	Dewiswch >>	
Dilyn y canllaw wrth olygu'r Shapefile a'ch bod wedi llenwi a dychwelyd rhestr gyfeirio'r Shapefile i gadarnhau.	Dewiswch >>	▼